

Dysgu cyfunol

Cyd-destun a diffiniad

Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o ddulliau dysgu cyfunol wedi digwydd mewn lleoliadau addysg uwch ac ar gyfer hyfforddiant. Fodd bynnag, ers pandemig COVID-19, mae pob ysgol o'r meithrin i'r chweched dosbarth a'r colegau wedi gorfod addasu i ddarparu deunyddiau dysgu o bell, gan ddefnyddio cymysgedd o adnoddau digidol a pheynnau papur. Gydag ysgolion yn ailagor yn rhannol o fis Mehefin ymlaen, mae staff ysgolion yn mynd i ganfod eu hunain mewn sefyllfa dysgu cyfunol; hynny yw, cefnogi a gweithio gyda disgyblion wyneb yn wyneb yn yr ysgol a pharhau i ddarparu gweithgareddau dysgu i ddisgyblion o bell ar gyfer pan fyddant gartref.

“Blended learning is an approach to learning that combines face-to-face and online learning experiences. Ideally, each (online and off) will complement the other by using its particular strengths.”

TeachThought [\[1\]](#)

Mae adolygiad tystiolaeth cyflym o'r Educational Endowment Fund (EEF) yn tanlinellu'r pryderon y bydd llawer o ddisgyblion wedi syrthio ar ei hôl hi gyda'u hastudiaethau ers y cloi i lawr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae adolygiad o dystiolaeth EEF, [\[2\]](#), yn darparu tri phrif ganfyddiad, sef:

- 1. Mae cau ysgolion yn debygol o wrthdroi'r cynnydd a wnaethpwyd i leihau'r bwlch yn y degawd diwethaf.**
- 2. Bydd dysgu o bell effeithiol yn dylanwadu ar y raddfa y bydd y bwlch hwn yn parhau i gynyddu.**
- 3. Bydd angen cymorth parhaus i helpu disgyblion difreintiedig i ddal i fyny.**

Yn ogystal, yn eu hadolygiad cyflym cychwynnol, 'Impact of School Closures on the Attainment Gap' [\[3\]](#), maent yn tynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

1. Mae **ansawdd** yr addysgu yn bwysicach na'r **modd** y cyflwynir gwersi.
2. Mae sicrhau **mynediad i dechnoleg** yn allweddol, yn enwedig i ddisgyblion difreintiedig.
3. Gall **rhyngweithio â chyfoedion** godi cymhelliant a gwella deilliannau dysgu.
4. Gall **cynorthwyo disgyblion i weithio'n annibynnol** wella deilliannau dysgu.
5. Mae **gwahanol ddulliau** o ddysgu o bell yn addas ar gyfer gwahanol dasgau a mathau o gynnwys.

At ei gilydd, bydd ansawdd yr addysgu a'r mynediad at dechnoleg, wedi eu darparu trwy ddulliau dysgu cyfunol, yn hanfodol i gefnogi disgyblion yn ystod pandemig Covid-19.

Dulliau dysgu cyfunol

Bydd dysgu cyfunol yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau y gellir eu categoreiddio'n fras fel:

1. Amser wyneb yn wyneb â disgyblion

2. Dysgu ar-lein

a. Dysgu anghydamserol

i. Adnoddau a gweithgareddau wedi eu cyflwyno ar-lein (e.e. trwy Teams, ystafelloedd dosbarth Google, ebost HWB ac ati)

ii. Gwersi wedi eu recordio

iii. Dysgu 'fflip' (Flipped Learning) ble mae'r disgyblion yn ymgysylltu â'r deunydd cyn trafodaethau yn y dosbarth

b. Dysgu cydamserol

i. Sesiynau bugeiliol a gwirio dysgu ar-lein byw

ii. Gwersi ar-lein byw

3. Copïau ac adnoddau caled

a. Pecynnau papur & llyfrynnau gwaith

b. Gwerslyfrau

c. Adnoddau sydd eu hangen ar gyfer prosiectau, gemau & gweithgareddau (e.e. dramâu, cerddoriaeth, celf, DT, addysg gorfforol ac ati)

Mae 'anghydamserol' a 'cydamserol' yn dermau newydd y mae athrawon yn dod i delerau â nhw'n gyflym. Mae Doug Lemov (Teach Like a Champion) yn rhoi esboniad defnyddiol o'r termau hyn yn ei flog, 'Mastering Remote Teaching – Intro: Two Types of Learning', [\[4\]](#).

Yn ogystal â'r materion a amlinellir uchod, efallai y bydd gan ddysgwyr SIY (Saesneg fel Iaith Ychwanegol) a'u teuluoedd yr her ychwanegol o rwystrau iaith. Mae tîm EMAU Abertawe wedi cynhyrchu arweiniad ar gefnogi parhad dysgu ar gyfer dysgwyr SIY. Gellir gweld copi o'r ddogfen yma.

1. Wyneb yn Wyneb

Bydd angen i ysgolion ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r amser wyneb yn wyneb gyda disgyblion i gefnogi lles disgyblion a nodi a chefnogi eu hanghenion dysgu. Mae amser yn debygol o fod yn gyfyngedig ac felly, yn fwy nag erioed, bydd angen i ysgolion gynllunio'n ofalus ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio'r amser hwn.

Rhagwelir y bydd yr amser yn cael ei ddefnyddio i:

i. Cefnogi lles disgyblion

ii. Nodi unrhyw fylchau sylweddol yn nysgu'r disgyblion

iii. Cefnogi disgyblion gyda'u dysgu o bell

Mae Tîm Seicoleg Addysgol Abertawe wedi cynhyrchu canllawiau i helpu'r staff a'r disgyblion i ddychwelyd yn ôl i'r ysgol. Gwelir y canllawiau yma: [Canllawiau](#)

Os nodir bylchau sylweddol yn nysgu'r disgyblion, bydd angen i ysgolion ystyried sut i gefnogi'r disgyblion yn y meysydd hyn trwy eu darpariaeth dysgu cyfunol. Hefyd, efallai y bydd ysgolion yn darganfod bod disgyblion wedi cael trafferth cael gafael ar adnoddau digidol. Os yw hyn yn wir, bydd angen i athrawon ystyried y ffordd orau iddynt gynorthwyo disgyblion i gyrchu deunyddiau ar-lein neu ddarparu adnoddau amgen.

Dysgu ar-lein – Anghydamserol

Mae dysgu ar-lein, y cyfeirir ato weithiau fel e-ddysgu, wedi'i ddatgan yn aml fel y peth mawr nesaf ym myd addysg. Fodd bynnag, er gwaethaf y ddewiniaeth o dechnoleg fodern, mae ymchwil yn dangos bod ei effaith wedi bod yn rhy dila. Mae ymchwil gan Brifysgol Reading, 'A Conceptual Framework Highlighting E-learning Implementation Barriers', 2016, [\[5\]](#), yn nodi:

“E-learning has gained much focus from educators and researchers, with many extolling e-learning over traditional learning. Despite this focus, implementation of e-learning systems often fails.”

O'u hymchwil, maent yn nodi'r pedwar rhwystr i lwyddiant:

i. Technoleg

Mae'n cynnwys mynediad at galedwedd a meddalwedd, a materion cysylltiedig.

ii. Unigol

Mae'n cynnwys gwybodaeth flaenorol myfyrwyr, cymhelliant, sgiliau digidol, cymorth cartref/cymdeithasol, amgylchedd cartref ac ati.

iii. Addysgeg

Mae'n cynnwys sgiliau digidol athrawon, ansawdd cynllunio, addysgu & asesu, effeithiolrwydd cymorth/tiwtorialau.

iv. Amodau galluogi

Yn cynnwys polisïau, diwylliant, a chymorth gweinyddol.

Mae mynediad at galedwedd a meddalwedd wedi gwella'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn HWB wedi rhoi llwyfan digidol i ysgolion a disgyblion sy'n addas i'w dysgu ar-lein. Serch hynny, yn y sefyllfa bresennol o ran cloi i lawr, mae mynediad at galedwedd digidol wedi creu heriau sylweddol i deuluoedd a'u plant. Mae cynllun parhad dysgu Llywodraeth Cymru, ar y cyd â gwaith ysgolion ac awdurdodau lleol, wedi helpu i arfogi teuluoedd sydd o dan anfantais digidol. Fodd bynnag, mae angen ystyried hefyd y teuluoedd hynny sydd heb y wybodaeth ddigidol i ddefnyddio'r dechnoleg a'r llwyfannau digidol. Mae'n amlwg felly y ceir heriau ac mae'n deg i ddweud nad yw'n faes teg na chyson i blant.

Yn ogystal â'r rhwystr technoleg, bydd medrau digidol a chymhelliant personol disgyblion yn cael effaith sylweddol ar ba mor dda y maent yn ymgysylltu â deunydd ar-lein. Mae cryfder gwybodaeth a sgiliau blaenorol disgyblion wrth gyflwyno pynciau newydd yr un mor bwysig; mae tystiolaeth yn dangos y bydd disgyblion sydd â bylchau sylweddol yn eu gwybodaeth a'u sgiliau, yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd dysgu deunydd newydd. Efallai bod rhai disgyblion o gefndiroedd SIY, yn enwedig y rhai sydd newydd gyrraedd, yn profi rhwystrau iaith, yn brin o brofiad digidol ac yn brin o wybodaeth am y cwricwlwm.

Mae gwaith cynllunio'r athrawon ac ansawdd yr addysgu a'r asesu yn hanfodol i sicrhau bod y disgyblion yn gyffredinol yn barod i symud ymlaen at gynnwys newydd. Mae gan hyn, wrth gwrs, gysylltiad cryf ag addysgeg athrawon a'u dealltwriaeth pedagogaid o'r pynciau y maent yn eu haddysgu.

Waeth beth fo'r dull cyflwyno, yn y dosbarth neu o bell, bydd llwyddiant disgyblion mewn dysgu yn dibynnu ar ansawdd cynllunio, addysgu ac asesu'r athrawon, a'r defnydd o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda gan gynnwys gwahaniaethu ar gyfer dysgwyr ag ADY neu SIY.

Mae'n werth nodi bod technoleg, pan gaiff ei defnyddio'n wael, yn gallu llesteirio'r broses ddysgu; mae tystiolaeth hyd yn hyn yn awgrymu mai dyma'r achos sydd wedi bodoli'n aml. Felly, mae angen i athrawon sicrhau eu bod yn defnyddio technoleg i gefnogi arfer pedagogaid sydd wedi'i sefydlu ac o safon uchel. Mae adroddiad The Educational Endowment Fund, Using Digital Technology to Improve Learning, 2019 [\[6\]](#), yn rhannu neges gyffredinol bwysig:

“technology itself is unlikely to improve young people’s learning, but the pedagogy behind it can. Put simply, this means buying a tablet for every pupil is unlikely to boost pupil attainment. However, if those

tablets are used purposefully – for example, increasing the quality or quantity of practice pupils undertake through a quiz app or the precision with which feedback on misunderstandings is provided – they stand a much better chance of doing so.”

Mae'r adroddiad yn cynnig pedwar argymhelliad i athrawon eu mabwysiadu:

i. Ystyried sut mae technoleg yn mynd i wella addysgu a dysgu cyn ei gyflwyno

ii. Gellir defnyddio technoleg i wella ansawdd esboniadau a modelu

iii. Mae technoleg yn cynnig ffyrdd o wella effaith ymarfer disgyblion

iv. Gall technoleg chwarae rhan mewn gwella asesu ac adborth

Mae'r holl argymhellion yn berthnasol i'r sefyllfa o ran cloi i lawr ysgolion. Gydag argymhelliad 1, oherwydd y cloi, gorfodwyd athrawon i ddefnyddio technoleg heb ddigon o amser i ystyried y ffordd orau o'i ddefnyddio, ac, yn wir, gyda hyfforddiant cyfyngedig. Fodd bynnag, mae athrawon yn dysgu'n gyflym! Mae argymhellion 2, 3 & 4 yn elfennau allweddol o addysgu o ansawdd uchel. Mae'r agweddau hyn yn hanfodol i gefnogi cynnydd disgyblion mewn dysgu, ac yn wir, cymhelliant disgyblion i barhau â dysgu; mae tystiolaeth ymchwil yn ein hysbysu, os nad yw disgyblion yn cyflawni cyfradd llwyddo cyson, eu bod yn debygol o gael eu dadrithio yn eu gwaith. Felly, mae'n rhaid i athrawon fod ar flaen y gad yn eu meddyliau o ran pwysigrwydd:

Adeiladu ar wybodaeth flaenorol & sgiliau

- A oes gan ddisgyblion yr wybodaeth a'r sgiliau hanfodol yn barod i gefnogi eu dysgu yn y pwnc hwn?
- Os na, beth sydd angen i mi ei wneud i baratoi disgyblion ar gyfer y dasg/tafgau?
- Pa ystyriaeth sydd angen i mi ei rhoi i wahaniaethu gwaith i ddysgwyr ag ADY a SIY?

Darparu cyfarwyddiadau clir

- A yw disgyblion yn glir ynghylch yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud?
- Pa offer ac adnoddau sydd eu hangen arnynt; a oes ganddynt fynediad atynt?

Modelu a sgaffaldio

- Ydw i'n egluro, yn arddangos ac yn sgaffaldio'r gwaith yn ddigon da i ddisgyblion?
- A yw fy enghreifftiau a'm hesboniadau wedi'u dewis yn dda i ddatgelu pwyntiau dysgu allweddol ac i ganfod camsyniadau a phroblemau cyffredin?

Gweithgareddau & adnoddau

- A yw fy ngweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda i ganiatáu atgyfnerthu gwybodaeth a datblygiad yn nysgu'r disgyblion?
- Ydw i'n defnyddio dulliau amrywiol sy'n cefnogi mynediad i wahanol ddysgwyr e.e. y rhai ag SIY neu ADY?
- A oes gan ddisgyblion ddigon o gyfleoedd ar gyfer ymarfer adalw gwybodaeth o ansawdd (strategaethau bylchu ac adalw a ddefnyddir i atgyfnerthu'r dysgu dros gyfnod amser ac er mwyn osgoi anghofio gwybodaeth)
- Ydw i'n gofyn i ddisgyblion ddangos beth maen nhw wedi'i ddysgu yn hytrach na'r hyn y maent wedi ei wneud?

Adborth & asesu

- Ydw i'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wirio eu gwaith, gweld gwahanol atebion a gweld gwaith enghreifftiol?
- Ydw i'n monitro ymgysylltiad a chynnydd disgyblion yn eu dysgu yn ddigon da? Sut ydw i'n gwybod eu bod nhw'n gwybod e.e. defnydd o gwestiynu/asesiadau/cwisiau ac ati?
- Ydw i'n rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion i gefnogi eu dysgu?

Mae'r Education Endowment Foundation wedi datblygu ystod o adnoddau cynllunio a myfyrio, [\[7\]](#), a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion ac athrawon wrth ddatblygu eu hymarfer dysgu o bell. Mae'r fframwaith cynllunio yn nodi dilyniant dysgu gyda phum ymagwedd at ddysgu – **ysgogi, esbonio, ymarfer, myfyrio ac adolygu** – ac mae'n darparu tasgau a gweithgareddau enghreifftiol o fewn pob dull.

Mae asesiadau aml-ddewis, o'u dylunio'n dda, yn gallu bod yn ddull asesu defnyddiol ar-lein. Mae Evidence Based Education [\[8\]](#), yn eu llawlyfr 'Making Great Assessment', yn darparu rhestr wirio ddefnyddiol iawn i helpu athrawon i gynllunio asesiadau aml-ddewis. Mae'r rhestr wirio yn cynnwys:

Asesiadau aml-ddewis

1. Mae pob cwestiwn yn asesu un amcan dysgu clir
2. Mae cwestiynau'n cael eu geirio yn y ffordd symlaf posib – dim geirfa anodd (oni bai bod y cwestiwn yn profi'r eirfa) neu wybodaeth amherthnasol a dylid osgoi defnyddio geirfa negyddol e.e. Dydy... ddim... Does...
3. Caiff y cwestiynau hawsaf eu gosod ar ddechrau'r prawf
4. Dim cwestiynau sy'n gofyn am farn
5. Dylid defnyddio llythrennau i restru atebion a'u trefnu'n fertigol e.e.
 - a. Ateb 1
 - b. Ateb 2
 - c. Ateb 3

d. Ateb 4

6. Dylai atebion fod ar gyfer y cwestiwn hwnnw'n unig (h.y. peidiwch â gorgyffwrdd atebion)

7. Cyflwynir pob ateb mewn modd tebyg

8. Mae pob ateb yn gredadwy ac yn seiliedig ar gamdybiaethau/camgymeriadau cyffredin

Gwersi wedi eu recordio

Mae gwersi wedi eu recordio yn adnoddau grymus ar gyfer dysgu anghydamserol. Mae nhw'n galluogi athrawon i gyflwyno cynnwys newydd drwy ddarparu cyfarwyddiadau, esboniadau, modelu ac atebion clir. Mae disgyblion hefyd yn elwa o oedi recordiadau (h.y. gwasgu'r botwm 'pause') er mwyn gallu cyflawni'r gweithgareddau ar eu cyflymder eu hunain. Gallant hefyd ailedrych ar wersi i gefnogi eu dysgu ymhellach.

Gall gwersi sydd wedi'u recordio fod yn bwysau gwaith trwm i'w creu gan fod angen ailgynllunio'r gwersi yn wahanol i'r arfer ac yna'u recordio a'u golygu. Fodd bynnag, mae'r rhyngwyd yn adnodd gwych ar gyfer gwersi a recordwyd ymlaen llaw, y gall athrawon eu defnyddio i gefnogi eu cynllunio (yn anffodus serch hynny, mae'r nifer o wersi cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn brin).

Mae enghreifftiau defnyddiol o wersi a recordiwyd i'w gweld yma:

- i. Oak National Academy – <https://www.thenational.academy/>
- ii. Reach Online Learning – <https://www.youtube.com/channel/UCiai-MqUoEe-IQ2FbApQChw/videos>
- iii. Swansea Virtual School – <https://swanseavirtualschool.org/daily-lessons/>
- iv. ERW Dolen Repository – <https://thingi.erw-rhwyd.cymru/Repository>

Cymorth ar gyfer recordio gwersi

Mae canllawiau ar gyfer ffilmio cynnwys gwersi a'u rhannu ar gyfer gwella ymgysylltiad disgyblion i'w gweld yn y ddogfen hon – [Canllawiau Recordio Gwers](#)

Gwersi 'fflip' (Flipped Lessons)

Gall dysgu ar y pryd fod ar ffurf yr 'ystafell ddosbarth wedi ei gwyrdroi', lle mae myfyrwyr yn ymgysylltu â deunyddiau ar-lein, llyfrynau gwaith, gwerslyfrau cerddorol a gwerslyfrau eraill gartref, **cyn** cymryd rhan mewn trafodaethau a gwaith pellach yn y dosbarth. Gall gweithgareddau gynnwys rhai sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion yr wybodaeth a'r sgiliau hanfodol cyn cyflwyno deunydd newydd mewn

sesiynau wyneb i wyneb. Fel arall, efallai y bydd y dull 'fflipio' yn gofyn i ddisgyblion wneud gwaith ymchwil cefndirol ar bynciau cyn iddynt gael eu cyflwyno gan athrawon.

Mae Alistair Hamill, athro Daearyddiaeth o Ogledd Iwerddon, yn crynhoi teimladau pawb drwy dynnu ar hen jôc Wyddelig:

When a visitor, who has lost their way in Ireland, asks how to get to a certain location, the response is "*I wouldn't start from here!*"

Mae hyn yn crynhoi'n daclus ble'r ydym ni ar hyn o bryd. Yn ei restr chwarae ar ddysgu cyfunol ar YouTube, [\[9\]](#), mae Alistair yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi addysgeg o flaen technoleg, ac ar adeiladu gwybodaeth a medrau disgyblion yn systematig, yn ogystal â llawer o agweddau allweddol eraill ar ddysgu cyfunol y mae angen i athrawon eu hystyried.

2 Dysgu cydamserol (gwersi/sesiynau byw)

Er y cydnabyddir, ar y dechrau, mai sesiynau anghydamserol fydd y cyfrwng mwyaf amlwg ar gyfer dysgu ar-lein, mewn rhai achosion, mae ysgolion yn dechrau defnyddio sesiynau byw. Gellir defnyddio'r rhain i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu disgyblion.

Fel yn yr adran flaenorol, mae pwysigrwydd yr athrawon wrth ddefnyddio dulliau addysgeg cryf yn hollbwysig. Yn bwysig, bydd sesiynau byw yn creu mwy o gyfleoedd i ddarganfod beth mae disgyblion wedi'i ddysgu a pha gamdybiaethau neu fylchau sy'n dal i fodoli yn eu dysgu.

Wrth gynnal sesiynau byw, mae angen i ysgolion sicrhau eu bod yn defnyddio dulliau diogelu cadarn i ddiogelu staff a disgyblion. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar brotocolau diogelu ar gyfer ffrydio byw yma - [Canllawiau Sesiwn Fyw](#).

3 Adnoddau a chopiau caled

Er gwaethaf y ddewiniaeth o dechnoleg fodern, mae rôl bwysig o hyd ar gyfer adnoddau copi caled a ffisegol. Gall ysgolion ddefnyddio'r rhain i gydlynu strategaethau wyneb yn wyneb a dysgu o bell, neu lle mae gan ddysgwyr / teuluoedd rwystrau i gyrchu dysgu digidol

Er enghraifft, gall llyfrynnau gwaith sydd wedi'u cynllunio'n dda ddarparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth a gweithgareddau i ddisgyblion eu cwblhau ar ôl sesiynau wyneb yn wyneb, neu i atgyfnerthu'r dysgu yn ystod gwersi ar-lein. Yn ogystal, gellir defnyddio gweryslyfrau, llyfrau darllen, papurau newydd a chylchgronau ac ati. Bydd yr adnoddau hyn yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio gwahanol ddulliau i gefnogi dysgu dan gyfarwyddyd a hunan-reoledig. At hynny, bydd dal angen datblygu rhai gweithgareddau dysgu o hyd drwy ddulliau corfforol, er enghraifft, llawysgrifen, ymarfer cerddoriaeth offerynnol neu leisiol, gwaith celf, ffitrwydd, ymarfer corff ayb.

Wrth ddarparu adnoddau pecyn papur, mae'n ddefnyddiol cynnwys cyfarwyddiadau clir, esboniadau enghreifftiol ac atebion i helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plant.

Bydd adnoddau heb y rhain yn llai defnyddiol. Os bydd ysgolion yn e-bostio gweithgareddau ar sail taflen waith sydd angen ei hargraffu, byddai'n fuddiol cael copïau caled yn yr ysgol neu eu postio hefyd.

Adnoddau defnyddiol, gweminarau & awgrymiadau

Mae gwahanol sefydliadau, ysgolion ac athrawon yn creu adnoddau a dulliau defnyddiol i helpu ysgolion i addasu i gyflwyno dysgu o bell a chyfunol. Rhestrir rhai ohonynt isod i ddarparu enghreifftiau o sut mae dysgu o bell yn datblygu ar draws y Deyrnas Unedig.

1. Effective Teaching using Meetings and Assignments, Danes Primary School, London

Bydd y gweminar hwn yn rhoi gwybod i athrawon sut i sefydlu a rhedeg cyfarfodydd yn effeithiol yn ogystal â chreu a rheoli aseiniadau i'r plant eu cwblhau.

<https://lgfl.planetestream.com/View.aspx?id=4133~4l~LsqhFhRd&ajax=1>

2. Blended Learning, Alistair Magill, Geography Teacher & Senior Leader, Lurgan College, Northern Ireland

"I wouldn't start from here!"

Beth sy'n fan cychwyn da wrth ystyried dysgu cyfunol? Mae Alistair yn rhoi sail resymegol i dri gwybodyn y bydd angen iddynt fod yn sail i waith cynllunio'r athrawon wrth iddynt addasu i gyflwyno gwersi mewn modd cyfunol.

<https://www.youtube.com/playlist?list=PLpF4P0xerwVBRK99o-A1nfiup-21-NASO>

3. Flipped and Blended Approaches, Basingstoke College of Technology, Basingstoke

Yn y gweminar hwn, mae staff o Goleg Technolegol Basingstoke yn rhannu'r modd y maent wedi integreiddio dulliau 'fflip' a chyfunol dros y pum mlynedd ddiwethaf, a sut y mae staff a myfyrwyr wedi ymateb i heriau dysgu o bell.

<https://lgfl.planetestream.com/View.aspx?id=4130~4i~hhwDA7j6>

4. Starting Up a Virtual School from Scratch, Broadclyst Community Primary School, Exeter

Yn nigwyddiad byw cyntaf erioed yr ysgol, mae staff yn trafod sut i sefydlu ysgol rithwir o'r dechrau. Mae'r darllediad yn cynnwys gwersi mae staff Broadclyst Community Primary School wedi dysgu am sefydlu amgylchedd dysgu o bell gan ddefnyddio timau Microsoft, yn ogystal â llawer mwy ...

<https://vimeo.com/414007142>

5. Teach-Like-A-Champion Blog, Doug Lemov

Mae'r blog hwn yn cynnwys erthyglau ar addysgeg effeithiol trwy ddysgu o bell.

<https://teachlikeachampion.com/blog/>

6. Unity Research School, Unity Schools Partnership Trust, West Suffolk

Mae'r ysgol ymchwil wedi pecynnu'n gyfleus ganllawiau ac ymchwil defnyddiol o'r EEF mewn poster. Mae adnoddau EEF wedi'u rhannu'n bum maes:

- Metawybyddiaeth a dysgu hunanreoledig
- Gweithio gyda rhieni i gefnogi dysgu'r plant
- Gwella dysgu cymdeithasol ac emosiynol mewn ysgolion cynradd
- Rhoi tystiolaeth ar waith – canllaw ysgol
- Gwneud y defnydd gorau o gynorthwywyr dysgu

Dolen i'r poster: https://researchschool.org.uk/public/docs/5-5-EEF-guidance-reports-and-associated-tools-to-support-planing-and-practice-LEADERS_TEACHERS-TAs.pdf

7. Seeing it from their perspective, Barri Mock

Mae blog Barry yn tynnu sylw at yr angen i athrawon feddwl am yr heriau y mae disgyblion yn eu hwynebu wrth dderbyn deunyddiau dysgu o bell, yn enwedig trwy sawl plattform.

<https://blogbjmock.wordpress.com/2020/06/11/see-it-from-their-perspective/>

8. Remote Learning - Tips For Teachers, Barri Mock

Yn y blog hwn, mae Barri yn cyflwyno set ddefnyddiol o awgrymiadau i athrawon eu hystyried wrth gyflwyno dysgu o bell.

<https://15mfcymru.blogspot.com/>

9. Self-Regulation at a Distance, Durrington Research School, June 2020

Mae athrawon yn Ysgol Ymchwil Durrington yn darparu gwybodaeth a chlipiau fideo ategol i helpu disgyblion i ddatblygu hunanreoleiddio ac arferion dysgu da ar gyfer dysgu gartref.

<https://researchschool.org.uk/news/self-regulation-at-a-distance/>

Ffynonellau:

- [1] TeachThought, The Definition of Blended Learning, 2012, updated 2020
<https://www.teachthought.com/learning/the-definition-of-blended-learning/>
- [2] Impact of school closures on the attainment gap, Education Endowment Foundation, June 2020
[https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF_\(2020\)_-_Impact_of_School_Closures_on_the_Attainment_Gap.pdf](https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF_(2020)_-_Impact_of_School_Closures_on_the_Attainment_Gap.pdf)
- [3] Impact of School Closures on the Attainment Gap, Education Endowment Foundation, April 2020
https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf
- [4] Mastering Remote Teaching – Intro: Two Types of Learning, Doug Lemov, March 2020
<https://teachlikeachampion.com/blog/mastering-remote-teaching-intro-two-types-of-learning/>
- [5] A Conceptual Framework Highlighting E-learning Implementation Barriers, Reading University, 2016
http://centaur.reading.ac.uk/70274/1/PDF_Proof.PDF
- [6] Using Digital Technology to Improve Learning, Educational Endowment Fund, March 2019
https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/digitalTech/EEF_Digital_Technology_Guidance_Report.pdf
- [7] COVID-19 Resources, Educational Endowment Fund, June 2021
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/covid-19-resources/support-resources-for-schools/>

- [8] What Makes Great Assessment – The Case for Multiple Choice Questions, Evidenced Based Education, March 2020
- https://s3.amazonaws.com/thinkific-import/133755/U3Cqb35OS6QZxpohSqzt_DesigningGreatAssessmenteBook-1570528391945.pdf?utm_source=hs_email&utm_medium=email&utm_content=84980146&hsenc=p2ANqtz-97iQB5pusk9OMe62ltv7mMs0vPdO_wsTGzf_A59Kw1jIVGThSMB0KQt8kq03YacvVptBNFWSe_4dSdDpt3SpJshxUM0zEjyC9phKqUOZmZvP4mlt0&hsmi=84980146
- [9] Blended Learning, Alistair Magill, Geography Teacher & Senior Leader, Lurgan College, June 2020
- <https://www.youtube.com/playlist?list=PLpF4P0xerwVBRK99o-A1nfiup-21-NASO>
- [10] Effective Teaching using Meetings and Assignments, Danes Primary School, London, May 2020
- <https://lgfl.planetestream.com/View.aspx?id=4133~4l~LsqhFhRd&ajax=1>
- [11] Flipped and Blended Approaches, Basingstoke College of Technology, Basingstoke, May 2020
- <https://lgfl.planetestream.com/View.aspx?id=4130~4i~hhwDA7j6>
- [12] Starting Up a Virtual School from Scratch, Broadclyst Community Primary School, Exeter, May 2020
- <https://vimeo.com/414007142>
- [13] Unity Research School, Unity Schools Partnership Trust, West Suffolk, June 2020
- https://researchschool.org.uk/public/docs/5-5-EEF-guidance-reports-and-associated-tools-to-support-planing-and-practice-LEADERS_TEACHERS-TAs.pdf
- [14] Oak National Academy

<https://www.thenational.academy/>

[15] Reach Online Learning

<https://www.youtube.com/channel/UCiai-MqUoEe-IQ2FbApQChw/videos>

[16] Swansea Virtual School

<https://swanseavirtualschool.org/daily-lessons/>

[17] ERW Dolen Repository

<https://thingi.erw-rhwyd.cymru/Repository>

[18] Seeing it from their perspective, Barri Mock, June 2020

<https://blogbjmock.wordpress.com/2020/06/11/see-it-from-their-perspective/>

[19] Remote Learning - Tips For Teachers, Barri Mock, June 2020

<https://15mfcymru.blogspot.com/>

[20] Self-Regulation at a Distance, Durrington Research School, June 2020

<https://researchschool.org.uk/news/self-regulation-at-a-distance/>